**LC1501**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn sicrhau bod gofynion statudol yn gymwys i Unedau Cyfeirio Disgyblion yn yr un ffordd ag y maent yn gymwys i ysgolion a gynhelir. Yn ogystal, maent yn dwyn ynghyd y gofynion sy’n bodoli eisoes ar gyfer arolygu ysgolion, o dan Reoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006, sy’n gymwys mewn perthynas ag Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Maent hefyd yn dirymu Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) 1994 a Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Diwygio) 1996.

## Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd y Cynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i graffu ar ddrafft cynharach o’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd y pwyntiau adrodd posibl yn y drafft presennol ac nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Credir y bydd cynnwys cyfeiriadau at nodiadau ochr neu benawdau’r adrannau a’r rheoliadau (fel y bo’n briodol) y cyfeirir atynt yn yr eitemau yn Atodlen 1 o’r Rheoliadau o gymorth i’r darllenydd. Gellir ystyried hyn os caiff rheoliadau tebyg eu gwneud yn y dyfodol.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**20 Mawrth 2007**